



Ystod o brofiadau

Dylid rhoi cyfleoedd i ddysgwyr:

- ysgrifennu ar gyfer nifer o wahanol ddibenion gan gynnwys:
 - adrodd yn ôl
 - rhoi cyfarwyddiadau
 - cyflwyno gwybodaeth
 - esbonio
 - dadlau/perswadio
 - trafod/dadansoddi
 - gwerthuso
 - adrodd stori
 - disgrifio
 - dangos empathi
- ysgrifennu gan ddefnyddio amrywiaeth ac ystod o destunau di-dor a phytiog mewn amryw o ffurfiau, e.e. *llythyron, dyddiaduron, erthyglau, storiâu, adroddiadau, areithiau, dramâu a sgriptiau, taflenni gwybodaeth, hysbysebion, poster, tudalennau a thestun i'r we, holiaduron, adolygiadau, ymsonau*
- ysgrifennu ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd real a dychmygol, e.e. *cyfoedion, dysgwyr iau, athrawon, aelodau teulu, cynulleidfaoedd anghyfarwydd a chyfarwydd*
- ysgrifennu barddonol sy'n defnyddio delweddu a dyfeisiau barddonol, e.e. *odlau a ffurf*
- defnyddio ystod eang o ysgogiadau a symbyliadau gan gynnwys testunau ysgrifenedig a deinamig, e.e. *storiâu, llyfrau lluniau, cerddi, profiadau, ffilmiau, paentiadau, cerddoriaeth*
- defnyddio geirfa a therminoleg briodol i ystyried a gwerthuso eu gwaith hwy eu hunain a gwaith eraill, e.e. *awduron, cyfoedion*.

Dylai dysgwyr brofi ystod o brofiadau ieithyddol cyfoethog fel y gall eu sgiliau llafar, darllen ac ysgrifennu blethu drwy'i gilydd.

Mae'r Rhaglenni Astudio Cymraeg a'r Saesneg wedi eu datblygu law yn llaw. Gall dysgwyr ddefnyddio sgiliau trawsieithu a sgiliau deuol i ddatblygu'r ddwy iaith gan sicrhau bod cryfder mewn un iaith yn atgyfnerthu'r llall.

Allwedd

O fewn y tabl, bydd testun o'r FfLIRh yn ymddangos fel testun normal. Bydd y sgiliau sydd yn benodol i'r Rhaglen Astudio Cymraeg yn cael eu dynodi gan brint trwm. Bydd y sgiliau hyn hefyd yn cael eu dynodi gan yr eicon canlynol.

Sgil rhaglen astudio ❖ Mae'r sgiliau hyn, ar y cyd â datganiadau'r FfLIRh, yn ffurfio'r Rhaglen Astudio Cyfnod Allweddol 2 Cymraeg.

D.S.

Er mwyn bod yn hygyrch ac yn ddarllenadwy, dyluniwyd y tablau hyn i'w hargraffu ar faint A3.



Llinyn: Ysgrifennu

Elfennau	Agweddau	Blwyddyn 3	Blwyddyn 4	Blwyddyn 5	Blwyddyn 6
		Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:
Trefnu syniadau a gwybodaeth	Ystyr, dibenion, darllenwyr	ysgrifennu at ddibenion a darllenwyr gwahanol gan ddewis geiriau er mwyn creu amrywiaeth a diddordeb	addasu'r hyn y maent yn ei ysgrifennu yn ôl y diben a'r darlennydd gan ddewis geiriau'n addas, e.e. <i>iaith ddisgrifiadol a pherswâd</i>	ysgrifennu gyda'r diben yn amlwg gan ddangos ystyriaeth i'r darlennydd, e.e. <i>drwy ddefnyddio geirfa addas a dyfeisiau cyflwyno</i>	addasu arddull ysgrifennu i'r darlennydd a'r diben, e.e. <i>arddull ffurfiol ar gyfer darlennydd anhysbys, arddull syml ar gyfer darllenwyr iau</i>
		defnyddio nodweddion testunau di-dor a phytiog syml yn eu hysgrifennu gan ddefnyddio dychymyg lle bo'n briodol ❖	defnyddio nodweddion ystod gynyddol o destunau di-dor a phytiog yn eu hysgrifennu gan ddefnyddio dychymyg lle bo'n briodol ❖	defnyddio nodweddion ystod o destunau di-dor a phytiog yn eu hysgrifennu gan ddechrau addasu eu harddull i weddu i'r darlennydd a defnyddio dychymyg lle bo'n briodol ❖	defnyddio nodweddion ystod o destunau di-dor a phytiog yn eu hysgrifennu gan ddangos creadigrwydd a'r gallu i addasu eu harddull i weddu i'r darlennydd gan ddefnyddio dychymyg lle bo'n briodol ❖
		cynnwys manylion, gwybodaeth neu sylwadau perthnasol yn eu gwaith ysgrifennu	esbonio'r prif syniad(au) gyda manylion ategol gan gynnwys sylwadau ac esboniadau lle bo'n berthnasol	ymhelaethu ar y prif syniad(au) drwy roi rhesymau, gwybodaeth ac enghreifftiau ategol	ysgrifennu adroddiad cynhwysfawr o bwnc neu thema
		nodi syniadau i'w defnyddio wrth ysgrifennu	casglu syniadau i gynllunio ysgrifennu	defnyddio technegau wrth gynllunio gwaith ysgrifennu ar gyfer ei wella, e.e. <i>map meddwl, dilyniannu, gweithgareddau mat bwrdd</i>	defnyddio amrywiaeth o strategaethau i gynllunio ysgrifennu, e.e. <i>nodiadau, diagramau, siartiau llif</i>
		defnyddio nodweddion ar sgrin, e.e. <i>ffont, lliw, torri, gludo, newid maint</i> , i gyflwyno'u gwaith mewn ffyrdd sy'n ennyn diddordeb y darlennydd ac yn gwella'r ystyr	archwilio a gwneud defnydd addas o wahanol fathau o ysgrifennu ar sgrin i ryngweithio ag eraill, e.e. <i>gwefannau, negeseuon e-bost, blogiau</i>	archwilio cynllun tudalennau'r we i greu deunyddiau gan ddefnyddio'r offer sydd ar gael	archwilio gwahanol ffyrdd o gyflwyno gwaith yn briodol, e.e. <i>delwedd symudol, sleidiau, trosleisio</i>
		prawf ddarllen eu gwaith hwy eu hunain a gwaith eraill gan fynegi barn amdano; adnabod ffyrdd i'w wella a dechrau ei olygu ❖	prawf ddarllen eu gwaith hwy eu hunain a gwaith eraill, ei asesu ac adnabod ffyrdd i'w wella cyn ei olygu ❖	prawf ddarllen eu gwaith hwy eu hunain a gwaith eraill, ei asesu ac argymhell newidiadau priodol ar gyfer gwelliannau; golygu/aiddrafftio'r gwaith i ddangos cynnydd ❖	prawf ddarllen eu gwaith hwy eu hunain a gwaith eraill, ei werthuso a gwneud argymhellion pendant ar gyfer ei wella; golygu/aiddrafftio'r gwaith i ddangos cynnydd ❖
		adolygu a gwella darnau o'u gwaith	gwella'u gwaith ysgrifennu, ei wirio o ran eglurder a threfn	diwygio a gwella'u gwaith ysgrifennu, gan esbonio pam maent wedi gwneud newidiadau	ystyried, golygu ac aiddrafftio i wella'u gwaith ysgrifennu



Llinyn: Ysgrifennu

Elfennau	Agweddau	Blwyddyn 3	Blwyddyn 4	Blwyddyn 5	Blwyddyn 6
		Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:
Trefnu syniadau a gwybodaeth	Strwythur a threfn	defnyddio strwythur elfennol ar gyfer ysgrifennu	defnyddio strwythur penodol wrth ysgrifennu, e.e. <i>tablau, holiaduron</i>	defnyddio nodweddion sy'n dangos strwythur yr ysgrifennu, e.e. <i>is-benawdau, penawdau</i>	addasu strwythurau wrth ysgrifennu i gyd-destunau gwahanol, e.e. <i>adrodd am ddigwyddiad, ymchwiliad neu arbrawf</i>
		ysgrifennu gan ddefnyddio cyflwyniad i'r pwnc a diwedd glo	ysgrifennu cyflwyniad, datblygu cyfres o syniadau a diwedd glo	ysgrifennu cyflwyniad sy'n gosod cyd-destun, cyfres o bwyntiau mewn trefn briodol a diwedd glo addas	ysgrifennu cyflwyniad effeithiol sy'n gosod cyd-destun a diben, cydbwysedd addas rhwng ffeithiau a safbwyntiau, diwedd glo cryno
		cyflwyno prosesau, digwyddiad neu adroddiadau mewn dilyniant clir	trefnu'r gwaith ysgrifennu mewn dilyniant neu adrannau rhesymegol, drwy ddechrau defnyddio paragraffau	defnyddio paragraffau sydd â phrif syniad a manylion perthnasol	defnyddio paragraffau gan wneud cysylltiadau rhyngddynt
		defnyddio gwybodaeth weledol os yw'n berthnasol, e.e. <i>diagramau wedi'u labelu</i>	defnyddio gwybodaeth weledol, e.e. <i>darluniau, diagramau a graffiau, sy'n glir ac yn berthnasol i'r testun ysgrifenedig</i>	defnyddio delweddau, graffiau a darluniau sy'n glir, yn berthnasol ac yn briodol	defnyddio nodweddion a diwyg sydd wedi'u llunio er mwyn cyflwyno data a syniadau'n glir
Ysgrifennu'n gywir	Iaith	defnyddio iaith sy'n briodol ar gyfer ysgrifennu gan gynnwys Cymraeg safonol	defnyddio iaith sy'n briodol ar gyfer ysgrifennu gan gynnwys Cymraeg safonol	defnyddio iaith sy'n briodol ar gyfer ysgrifennu gan gynnwys Cymraeg safonol	defnyddio iaith sy'n briodol ar gyfer ysgrifennu gan gynnwys Cymraeg safonol
		defnyddio geirfa sy'n gysylltiedig â'r pwnc neu â chyd-destun y pwnc	defnyddio geirfa bwnc benodol yn annibynnol	defnyddio geirfa briodol, gan gynnwys geiriau ac ymadroddion pwnc benodol	defnyddio geirfa amrywiol a phriodol, gan gynnwys geiriau ac ymadroddion pwnc benodol
		defnyddio ystod gynyddol o eirfa ddychmygus ❖	dewis a defnyddio geiriau dychmygus o ystod gynyddol o eirfa ❖	dewis a defnyddio ystod eang o eiriau dychmygus a mentrus gyda chywirdeb cynyddol ❖	dewis a defnyddio ystod eang o eiriau dychmygus a mentrus yn gywir ❖



Llinyn: Ysgrifennu

Elfennau	Agweddau	Blwyddyn 3	Blwyddyn 4	Blwyddyn 5	Blwyddyn 6
		Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:
Ysgrifennu'n gywir	Cystrawen Atalnodi Sillafu Llawysgrifen	defnyddio patrymau a chystrawennau naturiol y Gymraeg a dechrau meithrin cywirdeb wrth ysgrifennu, e.e. <i>rhedeg rhai berfau ac arddodiaid, dechrau gwahaniaethu rhwng geiriau tebyg a defnyddio cenedl enwau sydd o fewn cylch eu profiad</i> ❖	dangos rhywfaint o afael ar batrymau a chystrawennau naturiol y Gymraeg a dechrau meithrin cywirdeb wrth ysgrifennu, e.e. <i>rhedeg rhai berfau ac arddodiaid, gwahaniaethu rhwng geiriau tebyg a defnyddio cenedl enwau</i> ❖	dangos gafael lled dda ar batrwm a chystrawennau naturiol y Gymraeg gan ddechrau saernio'u hiaith a meithrin cywirdeb wrth ysgrifennu, e.e. <i>rhedeg berfau ac arddodiaid, gwahaniaethu rhwng geiriau tebyg a defnyddio cenedl enwau</i> ❖	dangos gafael ar gystrawen naturiol y Gymraeg gan ddechrau saernio'u hiaith a meithrin cywirdeb wrth ysgrifennu, e.e. <i>defnyddio amrywiaeth gynyddol o ymadroddion a phatrymau brawddegol cywir, rhedeg berfau ac arddodiaid, gwahaniaethu rhwng geiriau tebyg a defnyddio cenedl enwau</i> ❖
		cychwyn brawddegau mewn amrywiaeth o ffyrdd	amrywio trefn geiriau, ymadroddion a chymalau mewn brawddegau	defnyddio strwythurau brawddeg gwahanol gan gynnwys brawddegau cymhleth sy'n dangos perthynas amser neu achos, e.e. <i>cyn cychwyn ... , o wneud hyn, yna</i>	defnyddio strwythurau brawddeg amrywiol er mwyn pwysleisio a chreu effaith
		defnyddio ansoddeiriau ac adferfau i ehangu brawddegau ac ymadroddion syml	defnyddio ansoddeiriau ac adferfau i ychwanegu diddordeb ac er mwyn ysgrifennu'n fanwl gywir	defnyddio'r amodol i gyfleu damcaniaeth neu bosibilrwydd, e.e. <i>pe bai, gallai</i>	
		defnyddio amrywiaeth o gysyllteiriau sy'n cyfleu achos a chanlyniad, e.e. <i>oherwydd, ar ôl</i>	defnyddio cysyllteiriau i ddangos cysylltiadau o fewn brawddegau		
		defnyddio ffurfiau safonol berfau'n berthnasol i gyd-destun	defnyddio ffurf safonol amrywiaeth o ferfau, e.e. <i>ffurfiau presennol, gorffennol, negyddol</i>	defnyddio ffurf safonol amrywiaeth o ferfau, e.e. <i>ffurfiau presennol, gorffennol, negyddol</i>	
		defnyddio ffurfiau gorffennol y ferf yn gyson, e.e. <i>cytsain yn dyblu (e.e. gofyn – gofynnodd)</i>			
		defnyddio'r treigladau mwyaf cyffredin fel arfer yn gywir, e.e. <i>ar ben</i>	defnyddio treigladau mwyaf cyffredin yn gywir, e.e. <i>fy nghalon</i>	treiglo'n gywir yn arbennig ar ôl y rhan fwyaf o'r arddodiaid a'r rhagenwau, e.e. <i>am funud, dy fam</i>	treiglo'n gywir ar ôl arddodiaid a rhagenwau gan ddechrau dod yn ymwybodol nad yw pob llythyren yn dilyn y drefn arferol, e.e. <i>y llinell</i>



Llinyn: Ysgrifennu

Elfennau	Agweddau	Blwyddyn 3	Blwyddyn 4	Blwyddyn 5	Blwyddyn 6
		Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:
Ysgrifennu'n gywir	Cystrawen Atalnodi Sillafu Llawysgrifen	defnyddio atalnod llawn, gofynnod, ebychnod ac atalnod ar gyfer rhestri	defnyddio atalnodi i ddynodi brawddegau, a dechrau defnyddio dyfynodau, atalnod i farcio cymalau, ac ymadroddion a cholllnodau i hepgor llythrennau, e.e. <i>hoffi'r ysgol (i + yr)</i>	defnyddio'r ystod lawn o atalnodi er mwyn tywys y darlennydd mewn brawddegau cymhleth, e.e. <i>atalnod, pwyntiau bwled, dyfynodau a cholllnod i ddynodi perchnogaeth (e.e. llyfrau'r bechgyn)</i>	defnyddio'r ystod gyfan o atalnodi'n gywir i wneud i'r ystyr fod yn glir
		defnyddio strategaethau gan gynnwys gwybodaeth am deuluoedd geiriau, gwreiddiau, morffoleg a gwybodaeth graffig i sillafu geiriau, e.e. <i>y geiriau amsillafog mwyaf cyffredin</i>	defnyddio strategaethau gan gynnwys gwybodaeth am deuluoedd geiriau, gwreiddiau, morffoleg a gwybodaeth graffig i sillafu geiriau, e.e. <i>geiriau â phatrymau mwy cymhleth</i>	defnyddio amrywiaeth o strategaethau i sillafu geiriau a phatrymau cymhleth rheolaidd, e.e. <i>penderfynu, cystadleuaeth</i>	defnyddio strategaethau i sillafu geiriau amsillafog, cymhleth ac afreolaidd yn gywir
		sillafu ffurfiau lluosog yn gywir mewn cyd-destun, e.e. <i>-au, -ion</i>	sillafu mwy o eiriau lluosog yn gywir mewn cyd-destun, e.e. <i>-iau, -i</i>	sillafu mwy o eiriau lluosog, e.e. <i>-oedd, -od, -ydd, a geiriau sy'n dyblu cytseiniaid, e.e. cynnwys, yn gywir mewn cyd-destun</i>	sillafu geiriau lluosog afreolaidd yn gywir, e.e. <i>car – ceir, plentyn – plant</i>
		sillafu pob gair aml ei ddefnydd yn gywir			
		cynhyrchu llawysgrifen ddarllenadwy a chyflwyno'u gwaith mewn modd priodol gan gyfuno llythrennau mewn ambell air.	cynhyrchu llawysgrifen sy'n glir ac yn ddarllenadwy ac a all fod yn glwm.	cynhyrchu llawysgrifen ddarllenadwy, glwm sy'n llifo'n naturiol.	cynhyrchu llawysgrifen sy'n llifo ac sy'n ddarllenadwy.



Ystod o brofiadau

Dylid rhoi cyfleoedd i ddysgwyr:

- ysgrifennu ar gyfer nifer o wahanol ddibenion gan gynnwys:
 - adrodd yn ôl
 - rhoi cyfarwyddiadau
 - cyflwyno gwybodaeth
 - esbonio
 - dadlau/perswadio
 - trafod/dadansoddi
 - gwerthuso
 - adrodd stori
 - disgrifio
 - cydymdeimlo/dangos empathi
- ysgrifennu gan ddefnyddio amrywiaeth ac ystod o destunau di-dor a phytig mewn amryw o ffurfiau, e.e. *llythyron, dyddiaduron, erthyglau, storiâu, adroddiadau, areithiau, dramâu a sgriptiau, taflenni gwybodaeth, hysbysebion, poster, tudalennau a thestun i'r we, holiaduron, adolygiadau, ymsonau*
- ysgrifennu ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd real a dychmygol, e.e. *cyfoedion, dysgwyr iau, athrawon, aelodau teulu, cynulleidfaoedd anghyfarwydd a chyfarwydd*
- ysgrifennu barddonol sy'n defnyddio delweddu a dyfeisiau barddonol, e.e. *odlau a ffurf*
- defnyddio ystod eang o ysgogiadau a symbyliadau gan gynnwys testunau ysgrifenedig a deinamig, e.e. *storiâu, llyfrau lluniau, cerddi, profiadau, ffilmiau, paentiadau a cherddoriaeth*
- defnyddio geirfa a therminoleg briodol i ystyried a gwerthuso eu gwaith hwy eu hunain a gwaith eraill, e.e. *awduron, cyfoedion*.

Dylai dysgwyr brofi ystod o brofiadau ieithyddol cyfoethog fel y gall eu sgiliau llafar, darllen ac ysgrifennu blethu drwy'i gilydd.

Mae'r Rhaglenni Astudio Cymraeg a'r Saesneg wedi eu datblygu law yn llaw. Gall dysgwyr ddefnyddio sgiliau trawsieithu a sgiliau deuol i ddatblygu'r ddwy iaith gan sicrhau bod cryfder mewn un iaith yn atgyfnerthu'r llall.

Allwedd

O fewn y tabl, bydd testun o'r FfLIRh yn ymddangos fel testun normal. Bydd y sgiliau sydd yn benodol i'r Rhaglen Astudio Cymraeg yn cael eu dynodi gan brint trwm. Bydd y sgiliau hyn hefyd yn cael eu dynodi gan yr eicon canlynol.

Sgil rhaglen astudio ❖ Mae'r sgiliau hyn, ar y cyd â datganiadau'r FfLIRh, yn ffurfio'r Rhaglen Astudio Cyfnod Allweddol 3 Cymraeg.

D.S.

Er mwyn bod yn hygyrch ac yn ddarllenadwy, dyluniwyd y tablau hyn i'w hargraffu ar faint A3.



Llinyn: Ysgrifennu

Elfennau	Agweddau	Blwyddyn 7	Blwyddyn 8	Blwyddyn 9
		Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:
Trefnu syniadau a gwybodaeth	Ystyr, dibenion, darllenwyr	ysgrifennu adroddiad cynhwysfawr am bwnc gan gyflwyno gwybodaeth, prosesau a syniadau'n glir ac yn addas at y diben	addasu cyflwyniad y deunyddiau yn ôl bwriad yr ystyr a'r effaith, e.e. <i>dewis faint o fanylion sy'n anghenrheidiol i argyhoeddi</i>	crynhoi, trafod materion ac esbonio'n fanwl fel y bo'n briodol at y diben
		gan ddangos creadigrwydd, defnyddio nodweddion ystod eang o destunau di-dor a phytiog yn eu hysgrifennu; addasu'r arddull a'r cywair i gynnal diddordeb y darllenydd gan ddefnyddio dychymyg lle bo'n briodol ❖	gan ddangos creadigrwydd, defnyddio nodweddion ystod eang o destunau di-dor a phytiog yn eu hysgrifennu; addasu'r arddull a'r cywair yn hyderus i gynnal diddordeb y darllenydd gan ddefnyddio dychymyg lle bo'n briodol ❖	gan ddangos creadigrwydd, defnyddio nodweddion ystod eang o destunau di-dor a phytiog yn eu hysgrifennu gan ddangos rheolaeth a meistrolaeth i gynnal diddordeb y darllenydd gan ddefnyddio dychymyg lle bo'n briodol ❖
		esbonio syniadau'n gyflawn gan ddangos goblygiadau a chanlyniadau	gwneud cysylltiadau a/neu ymhelaethu er mwyn sicrhau eu bod yn ymdrin yn llawn â'r pwnc	pwysu a mesur tystiolaeth, ffynonellau, esboniadau a rhesymeg wrth ymdrin â phwnc
		cynllunio gwaith ysgrifennu gan wneud penderfyniadau ynglŷn â'r ffyrdd gorau o gyflwyno cynnwys i greu effaith, e.e. <i>paratoi achos ar gyfer rhywbeth, dewis manylion sy'n helpu'r darllenydd i ddeall</i>	wrth gynllunio gwaith ysgrifennu, gwneud dewisiadau ynglŷn â'r cynnwys, strwythur, iaith, cyflwyniad sy'n addas at y diben	cynllunio mewn modd priodol i ddatblygu ysgrifennu at ddibenion a chynulleidfaoedd gwahanol
		defnyddio offer a chonfensiynau TGCh i gyflwyno gwybodaeth a data ac i strwythuro ysgrifennu	ystyried y ffyrdd gorau o gyflwyno ysgrifennu gan ddefnyddio TGCh er mwyn cyfathrebu'n glir ac effeithiol, e.e. <i>rhyddiaith ddi-dor ar gyfer dadl fanwl, tudalennau â hyperddolenni ar gyfer gwybodaeth wahanol am y pwnc, graffeg sy'n symud i ddangos prosesau</i>	gwneud dewisiadau dychmygus ynghylch cynnwys a chyflwyniad gwaith ysgrifennu gan ddefnyddio TGCh drwy wahaniaethu
		prawf ddarllen a gwerthuso'u gwaith hwy eu hunain a gwaith eraill drwy ddefnyddio ystod o strategaethau hunanasesu ac asesu cyfoedion gan wneud awgrymiadau clir ar gyfer ei wella gan olygu/ailldrafatio'u gwaith i ddangos cynnydd ❖	prawf ddarllen a gwerthuso'u gwaith hwy eu hunain a gwaith eraill drwy ddefnyddio ystod o strategaethau hunanasesu ac asesu cyfoedion gan wneud awgrymiadau clir a chraff ar gyfer ei wella gan olygu/ailldrafatio'u gwaith i ddangos cynnydd ❖	prawf ddarllen a gwerthuso'u gwaith hwy eu hunain a gwaith eraill drwy ddefnyddio ystod o strategaethau hunanasesu ac asesu cyfoedion gan wneud awgrymiadau clir a chraff ar gyfer ei wella gan olygu/ailldrafatio'u gwaith i ddangos cynnydd ❖
		nodi meysydd i'w gwella yn eu gwaith ysgrifennu, golygu ac ailldrafatio	defnyddio meini prawf i adnabod ffyrdd o wella ac yna ailldrafatio	gwella'u gwaith ysgrifennu drwy ei adolygu'n annibynnol a'i ailldrafatio



Llinyn: Ysgrifennu

Elfennau	Agweddau	Blwyddyn 7	Blwyddyn 8	Blwyddyn 9
		Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:
Trefnu syniadau a gwybodaeth	Strwythur a threfn	addasu strwythurau wrth ysgrifennu ar gyfer cyd-destunau gwahanol, e.e. <i>disgrifio canlyniad, amlinellu proses neu drafod dadl</i>	defnyddio strwythur testun cyfan i fod yn gymorth i gyfleu a chyfathrebu'r ystyr, e.e. <i>gosod crynodeb ar y cychwyn neu'r diwedd, data mewn adroddiad neu atodiad, defnydd o dudalennau cynnwys, penodau</i>	dewis a dethol strwythurau testun cyfan er mwyn bod yn gymorth i gyfleu a chyfathrebu'r ystyr, e.e. <i>beth yw'r strwythurau gorau i ddisgrifio, esbonio a pherswadio'n llwyddiannus?</i>
		dewis a threfnu syniadau a gwybodaeth er mwyn rhoi adroddiad clir a chyflawn	dewis, dadansoddi a chyflwyno syniadau a gwybodaeth yn argyhoeddiadol neu'n wrthrychol	dewis strwythurau i drefnu gwaith ysgrifennu, gan ddefnyddio nodweddion priodol yn effeithiol
		defnyddio paragraffau i drefnu darnau ysgrifennu hirach yn adrannau	trefnu darnau ysgrifennu hirach gan wneud cysylltiadau o fewn a rhwng paragraffau	dewis, dadansoddi a gwerthuso syniadau a gwybodaeth yn argyhoeddiadol neu'n wrthrychol
Ysgrifennu'n gywir	Iaith	dewis a defnyddio geiriau'n ofalus; meddu ar ystod eang o eirfa ddychmygus a mentrus ❖	dewis a defnyddio geiriau'n ofalus; meddu ar ystod eang o eirfa i greu effaith ❖	dewis a defnyddio geiriau'n ofalus; meddu ar eirfa soffistigedig i greu effaith ❖
		defnyddio iaith amheronol i gyfleu syniadau a gwybodaeth, e.e. <i>mae'r llog yn cael ei gyfrifo gan ... , mae siswrn miniog yn angenrheidiol i ...</i>	defnyddio'r trydydd person i gyfleu syniadau a gwybodaeth, e.e. <i>yn ôl arbenigwyr ... , dywed ffynonellau fod ...</i>	defnyddio iaith er mwyn bod yn wrthrychol a diduedd, e.e. <i>mae sawl agwedd wahanol ar y pwnc hwn ...</i>
		defnyddio geirfa amrywiol a phwrpasol yn gywir gan gynnwys geiriau ac ymadroddion pwnc benodol	defnyddio termau technegol, iaith a mynegiant yn gyson â chynnwys y pwnc	defnyddio ystod eang o dermau technegol, iaith a mynegiant yn gyson â chynnwys y pwnc
	Cystrawen Atalnodi Sillafu Llawysgrifen	dangos gafael dda ar gystrawen a phatrymau naturiol y Gymraeg gan saernïo'u hiaith a meithrin cywirdeb wrth ysgrifennu, e.e. <i>negyddu brawddegau, rhedeg berfau ac arddodiaid, gwahaniaethu rhwng geiriau tebyg a defnyddio cenedl enwau ❖</i>	dangos gafael dda ar gystrawen a phatrymau naturiol y Gymraeg gan saernïo'u hiaith yn hyderus a meithrin cywirdeb wrth ysgrifennu, e.e. <i>negyddu brawddegau, rhedeg berfau ac arddodiaid, gwahaniaethu rhwng geiriau tebyg a defnyddio cenedl enwau ❖</i>	dangos gafael sicr ar gystrawen a phatrymau naturiol y Gymraeg gan saernïo'u hiaith yn hyderus wrth ysgrifennu, e.e. <i>negyddu brawddegau, rhedeg berfau ac arddodiaid, gwahaniaethu rhwng geiriau tebyg a defnyddio cenedl enwau ❖</i>
		defnyddio ystod eang o strwythurau brawddeg gan ddewis cysyllteiriau i wneud i'r ystyr fod yn glir	ysgrifennu'n ramadegol gywir gan amrywio hyd a strwythur brawddegau i wneud i'r ystyr fod yn glir	ysgrifennu brawddegau syml, cyfansawdd a chymhleth yn ramadegol gywir
	ysgrifennu brawddegau gan sicrhau bod amser a pherson y ferf fel arfer yn gywir yn ei gyd-destun	ysgrifennu'n ramadegol gywir gan sicrhau bod amser a pherson y ferf yn gywir fel arfer yn ei gyd-destun	ysgrifennu'n ramadegol gywir gan sicrhau bod amser a pherson y ferf yn gywir yn ei gyd-destun	



Llinyn: Ysgrifennu

Elfennau	Agweddau	Blwyddyn 7	Blwyddyn 8	Blwyddyn 9
		Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:
Ysgrifennu'n gywir	Cystrawen Atalnodi Sillafu Llawysgrifen	defnyddio ystod o dreigladau'n gywir (treigladau meddal, trwynol a llaes) yn eu cyd-destun	defnyddio ystod o dreigladau'n gywir (treigladau meddal, trwynol a llaes) yn eu cyd-destun	defnyddio ystod o dreigladau'n gywir (treigladau meddal, trwynol a llaes) yn eu cyd-destun
		defnyddio'r ystod lawn o atalnodi'n gywir er mwyn gwneud i'r ystyr fod yn glir, e.e. <i>dynodi brawddegau (atalnodau llawn) a chymalau (atalnod), a defnyddio collnodau'n gywir</i>	defnyddio'r ystod lawn o atalnodi er mwyn gwneud i'r ystyr fod yn glir, e.e. <i>yr hanner colon, y colon a dyfynodau</i>	defnyddio'r ystod lawn o atalnodi er mwyn gwneud i'r ystyr fod yn glir, e.e. <i>yr hanner colon, y colon a chromfachau</i>
		defnyddio amryw o strategaethau ac adnoddau i sillafu geirfa gyfarwydd ac anghyfarwydd a geiriau pwnc benodol yn gywir	defnyddio amryw o strategaethau ac adnoddau i sillafu geirfa gyfarwydd ac anghyfarwydd a geiriau pwnc benodol yn gywir	defnyddio amryw o strategaethau ac adnoddau i sillafu geirfa gyfarwydd ac anghyfarwydd a geiriau pwnc benodol yn gywir
		cynhyrchu llawysgrifen sy'n llifo ac sy'n ddarllenadwy.	cynhyrchu llawysgrifen sy'n llifo ac sy'n ddarllenadwy.	cynhyrchu llawysgrifen sy'n llifo ac sy'n ddarllenadwy.